| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 27 Medi 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Ymholiadau Archwilio 2016/17** |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
I gyflwyno Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), fel archwilwyr allanol penodedig CSDd, ddyletswydd i gasglu tystiolaeth am sut mae rheolwyr a'r unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu (Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn CSDd) yn cyflawni eu dyletswyddau i atal a chanfod twyll. Mae'r llythyr yn nodi'r gofynion ac mae manylion yr ymatebion wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**
Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cadarnhau yn ffurfiol yr ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4. **Manylion yr adroddiad**
Mae ymatebion y rheolwr (Richard Weigh, Pennaeth Cyllid) a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd PLIC) wedi'u nodi yn Atodiad 1. I grynhoi, mae'r ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd canlynol o lywodraethu:
    - Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
    - Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
    - Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
    - A oes unrhyw ymgyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
    - Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae'r broses archwilio allanol flynyddol yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Gofynnodd Swyddfa Archwilio Cymru am ymatebion gan Richard Weigh fel Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 a'r Cynghorydd Barry Mellor fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb dros atal a chanfod twyll ym mhob agwedd o'i waith. Mae'r sicrwydd y mae'r SAC yn ei geisio mewn cysylltiad â thwyll yn ffurfio gwiriad defnyddiol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**Y risg yw y gallai twyll arwain at gamddefnyddio asedau'r Cyngor neu gamddefnyddio neu gam-fynegi datganiadau ariannol.** Mae'r ymatebion gan reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i ddangos fod prosesau ar waith er mwyn adnabod ac ymateb i'r risg o dwyll a bod digon o reolaethau mewnol ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) 240 (ISA 240) yn nodi mai'r rheolwyr a'r 'rheini sydd yng ngofal llywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yng Nghyngor Sir Ddinbych, sydd yn bennaf gyfrifol am atal a chanfod twyll. Mae ISA 240 yn nodi'r gofyniad am archwiliad allanol i gael dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.